PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS AR DDYDD LLUN 17 MAI 2021 AM 5.30PM.

PRESENNOL:

Y Cynghorydd T Parry - Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews - Is-Gadeirydd

Y Cynghorwyr:

E. M. Aldworth, A. Collis, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, M. P. James, B. Miles, J. Roberts a J. Simmonds.

Y Cynghorydd R. Whiting (Aelod Cabinet dros Addysg a Hamdden)

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), P. Warren (Arweinydd Strategol dros Wella Ysgolion), P. O'Neill (Uwch Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaeth ROC Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

TREFNIADAU RECORDIO

Atgoffwyd y rheiny oedd yn bresennol gan y Cadeirydd bod y cyfarfod yn cael ei recordio a byddai ar gael i`w wylio ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i wylio.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. J. Bevan, W. David, D. T. Hardacre a Mrs G. D. Oliver. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili) a Mrs P. Ireland (NEU).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod hwn.

3. COFNODION - 22 MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021 (cofnodion rhifau 1- 9) fel cofnod cywir a'i lofnodi gan y Cadeirydd.

4. COFNODION – 25 MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021 (cofnodion rhifau 1-6) fel cofnod cywir a'i lofnodi gan y Cadeirydd.

5. YSTYRIAETH O UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Nid oedd unrhyw fater wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu'r adroddiad oedd yn amlinellu manylion o Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg am y cyfnod Mai 2021 i Fawrth 2022 ac yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021. Gofynnwyd i aelodau i ystyried y Flaenraglen Waith, ynghyd â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Amlygodd Pennaeth, Addysg, Cynllunio a Strategaeth adroddiadau pellach i'w cael eu hychwanegu i FlaenRaglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfarfod i'w gynnal ar 29 Mehefin 2021 a chynnig bod adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fel eitem wybodaeth.

Wedi ystyried yr adroddiad ac yn amodol i'r gwelliannau a gynigiwyd, cafodd ei gynnig ac eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy bleidleisio ar Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith Pwyllgor Craffu Addysg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

7. ADRODDIADAU'R CABINET

Nid oedd un o adroddiadau'r Cabinet a rhestrwyd ar yr agenda wedi cael eu galw ymlaen am drafodaeth yn ystod y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

8. DIWEDDARIAD CHWE MIS ASESIAD PERFFORMIAD Y GYFADRAN 2020

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad, i gyflwyno Asesiad Perfformiad y Gyfadran Addysg newydd – sy'n rhan o Fframwaith Perfformiad newydd y Cyngor – i'r Pwyllgor Craffu. Cafodd aelodau wybod bod Asesiad Perfformiad y Gyfadran yn darparu gwybodaeth a dadansoddiad am gyfnod o 6 mis o Ebrill i Dachwedd 2020 ac mae'n

rhan o weithgaredd ‘hunanasesu’ cyffredinol y Cyngor, ble mae aelodau’n cael eu gwahodd i drafod, herio a chraffu’r wybodaeth yn Asesiad Perfformiad y Gyfadran.

Gofynnwyd am bwyntiau eglurhad ar y flaenoriaeth i godi safonau cyrhaeddiad mewn perthynas â’r nifer o ddisgyblion sydd ddim yn cyflawni cymwysterau sydd wedi codi o 0.9% yn 2017-18 i 1.7% yn 2018-19. Cynghorodd Arweinydd Strategol dros Wella Ysgolion i’r Pwyllgor Craffu ar sut maen nhw’n mynd i'r afael â'r data hwn. Gofynnwyd am bwyntiau eglurhad hefyd ar y flaenoriaeth i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yng nghymwysterau galwedigaethol a di-alwedigaethol er mwyn darparu cyfle cyfartal. Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid trosolwg ar y cymwysterau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ieuenctid.

Cododd un aelod nifer o bryderon mewn perthynas â data perfformiad ysgolion a chymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol. Ceisiwyd eglurdeb ar yr hyn roedd Swyddogion yn bwriadu gwneud i wella hwn yn sylweddol dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg y bydd graddau a bennir gan ganolfannau ar gyfer 2021 a rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod prosesau wedi'u rhoi ar waith. Cynghorwyd aelodau fod 2019 wedi gweld gwelliant yn y canlyniadau ond nad oedden nhw’n foddhaol a bod y ddwy flynedd o ddata dilynol yn mynd i`w gwneud hi’n waith mwy anodd i rheini sy’n ymwneud â gwella ysgolion. Cynghorwyd aelodau ymhellach bod Swyddogion yn parhau i gyfarfod gydag ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd pan bod lefel o bryder. Mae Swyddogion hefyd yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gael goruchwyliaethau o ymweliadau a gynhaliwyd gan Gynghorwyr Her. Amlygwyd, o ran y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer eleni, maen nhw’n ymddangos i fod yn debyg i llynedd. Cafodd y Pwyllgor Craffu eu hatgoffa nad yw’r data yn cael ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd, ond cafodd Aelodau eu sicrhau bod pethau’n mynd yn y cyfeiriad cywir. Tynnodd y Swyddog sylw at yr adroddiad gwybodaeth o’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg sy’n amlinellu sut maen nhw wedi herio a chefnogi’r ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod y dystiolaeth bresennol, data 2019 a chanlyniadau’r arolygiad i fyny hyd at Fawrth 2020 yn dangos bod ysgolion yn gwneud cynnydd ac ar y trywydd iawn i barhau i wella. Cafodd yr aelodau hefyd eu diweddaru gyda’r ffigyrau NEET presennol.

Cafwyd trafodaeth ar y mathau o gymwysterau galwedigaethol ac eraill a chytunodd yr Aelodau i awgrymiad o adroddiad i’r Pwyllgor Craffu ar y pwnc hwn. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol sut yr oedd wedi bod yn amlwg trwy gydol y sgwrs y brwdfrydedd sy'n bodoli ar draws y Pwyllgor Craffu ac i wneud yn siŵr bod darpariaeth dda mewn lle i blant sydd ddim yn dilyn y llwybrau traddodiadol. Gan gyfeirio at yr adroddiad a awgrymir i'r Pwyllgor Craffu, cynghorwyd iddo fod yn eitem sengl ar yr agenda i alluogi trafod a herio mewn mwy o fanylder,

Bu'r aelodau'n trafod, yn herio ac yn craffu’r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.25pm

Wedi ei gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol i unrhyw welliannau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

_____

CADEIRYDD